




WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Adroddiad Gwella Blynyddol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cyhoeddwyd: Ionawr 2012
Cyfeirnod: 111A2012



Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth y Cynulliad, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol sy'n gyfrifol am archwilio'r rhan fwyaf o arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru bob blwyddyn gan gynnwys £15 biliwn a drosglwyddir i Gymru bob blwyddyn trwy bleidlais gan Senedd San Steffan. Mae Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo bron i £5.5 biliwn o'r arian hwn i lywodraeth leol, trwy gyfrwng grantiau cyffredinol a phenodol. Mae llywodraeth leol, yn ei thro, yn codi £2.1 biliwn arall trwy'r dreth gyngor a threthi busnes.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gofalu bod arian cyhoeddus yn cyfrif, trwy hyrwyddo gwelliannau, fel bod pobl Cymru yn elwa ar wasanaethau cyhoeddus atebol, wedi'u rheoli'n dda, sy'n cynnig y gwerth am arian gorau posibl. Mae hefyd yn ymrwymo i nodi a rhannu enghreifftiau o arfer da ledled sector cyhoeddus Cymru.

Cafodd Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, gymorth gan Rod Alcott, Jeremy Evans a chydweithwyr o dan oruchwyliaeth Jane Holownia i gynnal yr Asesiad Gwella a pharatoi'r adroddiad hwn.

Lluniau trwy garedigrwydd Martin Phillips

Cynnwys

Adroddiad cryno a chynigion ar gyfer gwella	4
Adroddiad manwl	
Cyflwyniad	7
Mae'r Cyngor wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwelliannau ac mae'n perfformio'n dda yn y meysydd y mae'n canolbwyntio arnynt; ond nid yw'r ffordd y mae'n gwerthuso ac yn adrodd ar berfformiad yn ddigon cytbwys	8
Mae'r Cyngor yn datblygu cynlluniau da ac yn rhoi trefniadau priodol ar waith i gyflawni ei raglen gwella	9
Mae'r Cyngor wedi cyflawni llawer o'r hyn roedd wedi bwriadu ei gyflawni yn ei flaenoriaethau a nodwyd	13
Ar y cyfan, mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da tuag at gyflawni ei Amcanion Gwella yn 2010-11	13
Mae'r Cyngor wedi gwella ei gefnogaeth i bobl mewn angen	14
Mae'r Cyngor yn darparu cefnogaeth dda i helpu rhai grwpiau i ddatblygu, ond bu dirywiad cymharol ym mherfformiad addysg yn 2010-11	16
Mae'r Cyngor wedi gwneud yr hyn roedd wedi bwriadu ei wneud i helpu i greu a chynnal yr ardal fel lle diogel, llewyrchus a dymunol	17
Mae'r Cyngor yn monitro perfformiad yn dda, ond mae angen iddo fod yn fwy cytbwys wrth werthuso ac adrodd ar berfformiad	18
Atodiadau	
Atodiad 1	
Statws yr adroddiad hwn	21
Atodiad 2	
Gwybodaeth ddefnyddiol am Ben-y-bont ar Ogwr a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	22
Atodiad 3	
Cyfrifon a defnydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o adnoddau	24
Atodiad 4	
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	26

Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad ar ba mor dda mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru'n cynllunio ar gyfer gwella a darparu eu gwasanaethau. Gan ystyried gwaith Swyddfa Archwilio Cymru a'r arolygiaethau perthnasol, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno darlun o welliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r adroddiad wedi'i rannu'n dair prif adran, sy'n cwmpasu gwaith cynllunio, darparu a gwerthuso gwelliannau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y Cyngor).

2 Ar y cyfan, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad bod y Cyngor wedi rhoi trefniadau da ar waith i sicrhau gwelliannau ac mae'n perfformio'n dda yn y meysydd y mae'n canolbwyntio arnynt, ond nid yw'r ffordd y mae'n gwerthuso ac adrodd ar berfformiad yn ddigon cytbwys. Crynhoir y rhesymau wrth wraidd y casgliad hwn isod.

3 Mae'r Cyngor yn datblygu cynlluniau da ac yn rhoi trefniadau priodol ar waith i gyflawni'r rhaglen ar gyfer gwella. Daethom i'r casgliad hwn ar sail y canlynol:

- mae gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i fynd i'r afael â'i flaenoriaethau ac mae wedi ymateb yn dda i awgrymiadau blaenorol ar gyfer gwella;
- mae'r Cyngor yn bodloni ei ymrwymiad statudol o ran Deddf yr Iaith Gymraeg;
- mae trefniadau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) y Cyngor yn debygol o gefnogi gwelliannau; ac
- mae gan y Cyngor gynlluniau tymor canolig da sy'n gydnaws â rhaglen newid barhaus ar draws rhai o'r prif wasanaethau.

4 Mae'r Cyngor hefyd wedi cyflawni llawer o'r hyn roedd wedi bwriadu ei wneud yn ei flaenoriaethau a nodir. Daethom i'r casgliad

hwn ar sail y canlynol:

- Ar y cyfan, mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da tuag at gyflawni ei Amcanion Gwella yn 2010-11, ac yn y mwyafrif o achosion mae gan y Cyngor gynllun gweithredu ar waith i wella perfformiad lle nad oedd y perfformiad cystal â'r disgwyl.
- Mae'r Cyngor wedi gwella ei gymorth ar gyfer pobl mewn angen. Mae'r Cyngor yn perfformio'n dda yn erbyn rhai o'r dangosyddion ar gyfer gwasanaethau allweddol i oedolion ac mae'n rhaid iddo'n awr sicrhau bod ganddo'r gallu angenrheidiol i gyflawni ei gynlluniau ar gyfer gwelliannau pellach. Cafwyd cynnydd ym maes gwasanaethau cymdeithasol plant, mae cymorth corfforaethol da ar gyfer sicrhau gwelliannau i bobl mewn angen ac mae'r Cyngor yn gwella'r ffordd y mae'n ymdrin â digartrefedd.
- Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da i wella lles corfforol ac emosiynol pobl â phroblemau iechyd, ond ar y cyfan, mae perfformiad addysg yn anghyson a chafwyd rhai arwyddion o waethygu yn 2010-11.
- Mae'r Cyngor wedi gwneud yr hyn roedd wedi bwriadu ei wneud i greu a chynnal yr ardal fel lle diogel, llewyrchus a dymunol. Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd i wireddu ei amcan o adeiladu cymunedau diogel a chynhwysol ac mae'r gwaith i adfywio ardaloedd o'r Fwrdeistref yn helpu i gefnogi ei amcan o hyrwyddo twf economaidd. Mae'r Cyngor ymysg y cynghorau gorau yng Nghymru o ran rheoli gwastraff. Hefyd, mae'r Cyngor wedi llwyddo i greu neu wella llwybrau beic, llwybrau arfordirol a hawliau tramwy sy'n bodoli'n barod yn y Fwrdeistref yn 2010-11.

Cynigion ar gyfer gwella

5 Yn olaf, mae'r adroddiad yn nodi ein safbwyntiau ar asesiad y Cyngor ei hun o'i berfformiad a'i drefniadau. Daethom i'r casgliad bod y Cyngor yn monitro perfformiad yn dda, ond mae angen iddo werthuso ac adrodd ar berfformiad yn fwy cytbwys. Mae gan y Cyngor wybodaeth dda am berfformiad ac mae ei Adroddiad Blynyddol yn gynhwysfawr gan ei fod yn cynnwys y gweithgareddau pwysig y mae'r Cyngor wedi'u

cyflawni, neu heb eu cyflawni, yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, nid yw'r darlun a geir yn yr adroddiad yn gytbwys bob amser.

Cynigion ar gyfer gwella

C1 Er mwyn cynorthwyo dinasyddion i ddeall yn llawn y cynnydd y mae'r Cyngor yn ei wneud yn cyflawni ei amcanion ac yn gwella ei berfformiad, dylai'r Cyngor:

- sicrhau bod ei adroddiad blynyddol yn fwy cytbwys;
- bod yn gliriach ynglŷn â pherfformiad nad yw cystal â'r disgwyl, yn ogystal â lle mae wedi rhagori ar y disgwyliadau;
- nodi'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud yn sgil hynny; a
- mynd ati'n frwd i gael adborth a sylwadau gan ddinasyddion a chymunedau.

C2 Mae angen i'r Cyngor barhau i fynd i'r afael â meysydd i'w datblygu a gwella a nodir mewn archwiliadau allanol ac adroddiadau arolygu blaenorol.

Adroddiad manwl



Cyflwyniad

- 6 Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Ceir disgrifiad cryno o ddyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol ar [dudalen 2](#).
- 7 Dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad blynyddol am ba mor dda mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru'n cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Mae [Atodiad 1](#) yn cyflwyno mwy o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda chymorth arolygiaethau Cymru, Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), a Bwrdd yr Iaith Gymraeg, rydym wedi creu darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio'i gyflawni a sut maent yn mynd ati i wneud hynny. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi'r cynnydd a wnaeth y Cyngor ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan ystyried hunanasesiad yr Awdurdod.
- 8 Gydol yr adroddiad hwn, rydym yn nodi beth sydd angen i'r Cyngor ei wneud er mwyn gwella ei wasanaethau. O gofio'r amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol iawn pe na baem yn canfod rhywbeth y gellir ei wella. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gallu:
 - argymhell i Weinidogion Llywodraeth Cymru y dylent ymyrryd mewn rhyw fodd;
 - cynnal archwiliad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gydag argymhellion manwl;
 - gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – ac os gwneir argymhelliad ffurfiol, rhaid i'r Cyngor ymateb iddo'n gyhoeddus cyn pen 30 diwrnod; a
 - gwneud cynigion ar gyfer gwella – os byddwn yn cyflwyno cynigion i'r Cyngor, disgwyliwn iddynt weithredu arnynt cyn dilyn hynny wedyn.
- 9 A yw'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol i chi, ac yn hawdd i'w ddeall? Mae croeso i chi anfon sylwadau trwy e-bostio info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

Mae'r Cyngor wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwelliannau ac mae'n perfformio'n dda yn y meysydd y mae'n canolbwyntio arnynt; ond nid yw'r ffordd y mae'n gwerthuso ac yn adrodd ar berfformiad yn ddigon cytbwys

- 10 Mae'r adroddiad hwn yn nodi barn yr Archwilydd Cyffredinol ar berfformiad y Cyngor wrth gyflawni ei ddyletswydd statudol i wneud trefniadau er mwyn sicrhau gwelliannau parhaus. Mae'r farn hon wedi'i llywio gan waith Swyddfa Archwilio Cymru, KPMG LLP, Estyn, Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac AGGCC.
- 11 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor. Mae ein gwaith wedi canolbwyntio ar y prif amcanion y mae'r Cyngor wedi'u pennu ar ei gyfer ei hun a rhai materion allweddol eraill fel hunanwerthuso ac adrodd ar berfformiad i'r cyhoedd. Mae'r adroddiad yn adeiladu ar Asesiadau Corfforaethol ac Adroddiadau Gwella Blynyddol blaenorol a gyflwynwyd i'r Cyngor ac mae'r casgliadau'n seiliedig ar y wybodaeth rydym wedi ei chrynhai a'i rhannu a chanfyddiadau o'r gwaith a wnaed eleni.
- 12 Mae ein casgliad cyffredinol yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i roi trefniadau ar waith i sicrhau gwelliannau parhaus a'r cynnydd penodol y mae wedi'i wneud yn cyflawni yn erbyn yr Amcanion Gwella. Yr her i'r Cyngor yw sicrhau nad yw'n colli golwg ar y ffaith fod yn rhaid iddo barhau i gynnal ei waith arferol wrth iddo ganolbwyntio ar y trefniadau ar gyfer gwella yn y dyfodol a sicrhau ei fod yn cyflawni yn erbyn amcanion penodol. Mae'r arwyddion o ddirywiad yn ei berfformiad ym maes addysg yn 2011 yn dangos bod angen i'r Cyngor gydbwyso ei ymdrechion rhwng diwallu anghenion heddiw a pharatoi ar gyfer gwell dyfodol. Fel y nodwyd yn Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad 2010/2011 AGGCC: *'Mae llawer o waith wedi'i wneud i nodi'r rhaglen ar gyfer newid ac mae'r cyngor bellach yn wynebu'r her o gyflawni tra'n cynnal a gwella perfformiad ar yr un pryd'*.
- 13 Yn ogystal â rhoi trefniadau effeithiol ar waith i gynllunio ar gyfer gwelliannau a'u cyflawni, mae'n bwysig bod gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o hyd a lled y cynnydd a'r gwelliannau y mae'n eu gwneud. Ar y cyfan, mae'r cyngor yn monitro ei berfformiad ei hun yn dda. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith monitro hwn yn arwain at waith gwerthuso ac adrodd cytbwys ar berfformiad ar hyn o bryd. Mae tuedd i esgusodi neu geisio egluro tangyflawni, yn hytrach na chydabod lle nad yw cynnydd wedi bod cystal â'r disgwyl ac egluro'r camau unioni sy'n cael eu cymryd.

Mae'r Cyngor yn datblygu cynlluniau da ac yn rhoi trefniadau priodol ar waith i gyflawni ei raglen gwella

- 14 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn nodi ein hasesiad o ba mor dda y mae'r Cyngor yn cyflawni yn erbyn yr amcanion gwella y mae wedi'u pennu ar ei gyfer ei hun (fel y rhestrir yn **Atodiad 4**) a sut mae'r Cyngor yn cynllunio a rheoli ei waith i gynnal a gwella gwasanaethau. Mae'r adran hon o'r adroddiad hefyd yn ystyried a yw'r Cyngor wedi cymryd camau digonol a phriodol mewn ymateb i faterion a godwyd yn ein hadroddiadau blaenorol.

Mae gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i fynd i'r afael â'i flaenoriaethau ac mae wedi ymateb yn dda i awgrymiadau blaenorol ar gyfer gwella

- 15 Nododd ein Hasesiad Corfforaethol, a gyhoeddwyd i'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2011, nifer o gryfderau yn nhrefniadau'r Cyngor i sicrhau gwelliannau. Roedd y cryfderau hyn yn cynnwys cynnydd da wrth fynd i'r afael â diffygion mewn trefniadau adnoddau dynol; gwell cynllunio ariannol yn y tymor canolog; prosesau rheoli risg corfforaethol clir a chynnydd da wrth fynd i'r afael â meysydd ar gyfer gwella a oedd wedi'u nodi mewn adroddiadau cynharach.
- 16 Nododd ein hasesiad bod blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y cyfnod nesaf yn cynnwys cwblhau'r prosiectau gwerthuso swyddi a chyflog cyfartal, ac integreiddio gwaith cynllunio busnes ymhellach â chynllunio ariannol. Mae swyddogion ac aelodau'n gweithio'n agos i sefydlu amserlen a fframwaith cyffredin i integreiddio cynllunio ariannol a chynllunio busnes yn effeithiol, ac mae'r cyfrifoldeb dros berfformiad corfforaethol bellach wedi ei gydgrynhoi o fewn y swydd newydd, Pennaeth Cyllid a Pherfformiad. Cymerodd y prosiect gwerthuso swyddi gam ymlaen ym mis

Medi 2011 pan gyhoeddwyd ymgynghoriad y cynnig am strwythur cyflogau a graddio newydd y Cyngor. Mae'r Cyngor yn ddiweddar wedi dod i gytundeb fframwaith ar geisiadau Cyflog Cyfartal gyda chyfreithwyr ar gyfer yr hawlwyd a'r undebau llafur, ac yn disgwyl y bydd setliad yn y rhan fwyaf o achosion erbyn mis Mawrth 2012.

- 17 Ni chanolbwyntiwyd yn ddigonol ar rai o Amcanion Gwella'r Cyngor fel bod modd monitro a mesur yn ystyrlon. Mae'r Cyngor wedi cydnabod y diffyg hwn ac wedi diwygio ei 11 Amcan Gwella i lawr i naw ar gyfer 2011-12 drwy symleiddio a diwygio tri amcan gwella ar gyfer 2010-13, ym maes gwasanaethau plant, i ddau amcan gwella mwy clir, gan integreiddio'r Amcan Gwella sy'n ymwneud â Chydraddoldeb. Mae hyn wedi lleihau'r dyblygu a gafwyd yn y gyfres wreiddiol ac wedi galluogi'r Cyngor i bennu gwell mesurau llwyddiant: yn 2010-11 roedd y mesurau llwyddiant yn ymwneud yn bennaf â'r hyn roedd y Cyngor yn ei wneud yn hytrach na chanlyniadau ei gamau gweithredu. Mae'r Cyngor yn cynnal rhaglen hyfforddi yn 2011-12 er mwyn helpu i ddatblygu mesurau seiliedig ar ganlyniadau yn y dyfodol.

- 18 Mae'r Cyngor yn dechrau newid y ffordd y mae'n gwneud pethau i fod yn fwy effeithlon. Llwyddodd i newid ei drefniadau casglu gwastraff ac ailgylchu yn 2010-11, gan arwain at fwy o ailgylchu, gostyngiad o £1 miliwn mewn costau a chynnydd o £1.4 miliwn mewn incwm gan Lywodraeth Cymru. Mae'n parhau i weithio ar y model ailgynllunio neu newid darpariaeth ar gyfer rhai o'i wasanaethau mwyaf fel gofal cymdeithasol i oedolion a gwasanaethau hamdden. Mae wedi dechrau rhannu rhywfaint o'i wasanaethau fel archwilio mewnol ac agweddau ar wasanaethau cyfreithiol gyda chynghorau eraill ac mae'n datblygu ei gysylltiadau â phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus fel iechyd a'r heddlu. Mae'n gwneud defnydd mwy effeithlon o'i swyddfeydd ac wedi gostwng lefelau salwch staff.
- 19 Fodd bynnag, arafodd rhywfaint o'i raglen newid yn 2010-11. Mae'r adolygiad o gyflogau a graddio staff a'r gwaith o ailfodelu gofal cymdeithasol i oedolion yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl.
- 20 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi nodi nifer o feysydd i'w gwella ar gyfer y Cyngor yn ei adroddiad sy'n cwmpasu'r ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i'r awgrymiadau hyn ac wedi cymryd camau i fynd i'r afael â nhw, ac aed i'r afael â rhai yn llwyr. Rydym yn bwriadu ymgysylltu â'r Cyngor yn gynnar y flwyddyn nesaf i bennu a oes unrhyw faterion sydd eto heb eu datrys sy'n codi yn ein gwaith cynharach o ran cynigion archwilio ar gyfer gwella, ynghyd ag unrhyw feysydd newydd a nodir yn yr adroddiad hwn.

Mae'r Cyngor yn cyflawni ei ymrwymiad statudol o ran Deddf yr Iaith Gymraeg

- 21 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi canmol y Cyngor am gynyddu'r cynnwys Cymraeg yn sylweddol ar ei wefan gorfforaethol ac am gyflwyno system recriwtio ar-lein ddwyieithog. Mae'r Cyngor bellach yn gweithredu ei Strategaeth Sgiliau Iaith a ddylai nodi sgiliau staff cyfredol a'r angen am sgiliau iaith o fewn swyddi. Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd mewn perthynas â darpariaeth gwasanaethau a gyflawnir ar ei ran gan drydydd partion, drwy gynnwys anghenion ieithyddol fel ystyriaeth yn ei Becyn Cymorth ar Gomisiynu a'i Gynllun Cyflenwi. Dim ond ar ddau o'r pum dangosydd iaith yr adroddodd y Cyngor, ar ôl adrodd ar bedwar yn y blynyddoedd blaenorol. Disgwylir i'r Cyngor gyflwyno Cynllun diwygiedig i'r Bwrdd ar gyfer cymeradwyaeth ffurfiol erbyn diwedd y flwyddyn.

Mae trefniadau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) y Cyngor yn debygol o gefnogi gwelliannau

- 22 Mae defnyddio technoleg yn effeithiol yn hollbwysig er mwyn gweddnewid darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus, gwella'r canlyniadau ar gyfer dinasyddion a sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Gall technoleg gefnogi gwahanol ffyrdd o weithio, darparu gwasanaethau ac ymgysylltu â dinasyddion, a galluogi cynghorau i ddarparu mwy am lai. Mae'r ffordd y mae technoleg yn cael ei darparu a'i rheoli yn effeithio'n uniongyrchol ar effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac ansawdd gwaith ledled y Cyngor ac mae'n effeithio ar

bob gweithiwr cyngor bron iawn. Gall llywodraethu TGCh gwael arwain at ddefnyddio systemau amhriodol, systemau ddim ar gael a rhwystredigaeth ledled y sefydliad.

- 23 Daeth ein hadolygiad i'r casgliad bod trefniadau'r Cyngor ar ddatblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o gefnogi gwelliannau os yw'r Cyngor yn rhoi camau ar waith i gynnal ei seilwaith TGCh yn well a sicrhau bod ganddo'r sgiliau a'r gallu sydd eu hangen i weithredu ei gynlluniau. Er bod enghreifftiau o arferion da, gallai'r Cyngor fanteisio'n well ar dechnoleg i sicrhau mwy o arbedion effeithlonrwydd.

Mae gan y Cyngor gynlluniau tymor canolig da sy'n gydnaws â rhaglen newid barhaus ar draws rhai o'i brif wasanaethau

- 24 Mae'r Cyngor wedi cydnabod yr angen i wella rhai adrannau o'i gynllun ariannol tymor canolig ac mae wrthi'n datblygu cynllun ariannol newydd, cynhwysfawr a fydd yn canolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth ac yn egluro sut bydd y Cyngor yn ymdrin â'r heriau ariannol sy'n ei wynebu. Cafwyd cyfranogiad trawsbleidiol cadarnhaol gan aelodau. Y brif risg ariannol yw'r prosiect gwerthuso swyddi, ac mae angen i'r Cyngor ei gwblhau er mwyn gallu gwneud cynlluniau hyderus ar gyfer ei wasanaethau. Bydd y cynigion cyfredol yn creu cynnydd blynyddol yn y gyflogres o tua £3 miliwn, ond mae'r Cyngor wedi gallu darparu ar gyfer y lefel ychwanegol hon o gyllid yn ei gyllidebau.
- 25 Yn ddiweddar, rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ei farn ar gyfrifon y Cyngor a daeth i'r casgliad bod y datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn gywir. Mae **Atodiad 3** yn rhoi mwy o fanylion.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ymgysylltu â'r cyhoedd

- 26 Gellir diffinio ymgysylltu â'r cyhoedd fel proses sy'n dod â phobl at ei gilydd i fynd i'r afael â materion sy'n bwysig i bawb, er mwyn datrys problemau cyffredin, a sicrhau newid cymdeithasol cadarnhaol. Mae ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd yn gwahodd dinasyddion i gyfrannu at drafodaethau, deialog a chymhellion gweithredu ar faterion sy'n bwysig iddynt.¹
- 27 Yn ein gwaith archwilio, buom yn edrych ar y dull corfforaethol cyffredinol o ymgysylltu â'r cyhoedd gan ganolbwyntio'n benodol ar drefniadau yn ymwneud â'r Amcanion Gwella. Daethom i'r casgliad yn ein gwaith bod swyddogion ac aelodau'r Cyngor yn ymrwymedig iawn i ymgysylltu â'r cyhoedd ac mae hyn yn cael ei ategu gan weledigaeth glir, gallu da a gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth. Daethom i'r casgliad am y rhesymau canlynol:
- Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r Cyngor wedi datblygu Strategaethau Ymgysylltu â Dinasyddion cynhwysfawr a ddylai annog dull cyson a chydlynol o ymgysylltu â'r cyhoedd yn y Cyngor ac ymysg partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

¹ Cyfieithiad Cymraeg o'r diffiniad a geir ar wefan 'Public Agenda' 2010.

- Mae'r Awdurdod yn gallu dangos ymrwymiad cadarn i ddefnyddio dulliau ymgysylltu â'r cyhoedd fel ffordd o alluogi ac annog trafodaethau â'r cyhoedd. Mae swyddogion ac Aelodau yn ystyried y broses yn un hanfodol i ganfod barn y cyhoedd yn ystod adegau o newid mewn darpariaeth gwasanaethau ac fel ffordd o helpu i nodi blaenoriaethau allweddol yr Awdurdod.
- Mae'r Cyngor yn buddsoddi cryn arbenigedd, gallu a chefnogaeth i gyflawni ei weithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd.
- Mae'r Cyngor yn darparu gwybodaeth yn dda mewn amrywiol ffyrdd.
- Mae'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol gyda'i bartneriaid a rhanddeiliaid i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd a fydd yn helpu i wella a llywio darpariaeth gwasanaethau.
- Er nad yw'r Cyngor yn gwerthuso effeithlonrwydd ei weithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd yn ffurfiol, mae rhywfaint o waith monitro yn cael ei wneud drwy gadw llygad yn barhaus ar yr hyn sy'n gweithio'n dda.

Mae'r Cyngor wedi cyflawni llawer o'r hyn roedd wedi bwriadu ei gyflawni yn ei flaenoriaethau a nodwyd

- 28 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn nodi ein hasesiad o berfformiad y Cyngor wrth:
- gyflawni'r amcanion gwella roedd wedi'u pennu ar ei gyfer ei hun ar gyfer 2010-11;
 - cefnogi pobl mewn angen;
 - helpu pobl i ddatblygu; a
 - helpu i greu amgylchedd diogel, llewyrchus a dymunol.

Ar y cyfan, mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da tuag at gyflawni ei Amcanion Gwella yn 2010-11

- 29 Pennodd y Cyngor ei gyfres gyntaf o Amcanion Gwella yn 2010 a'u nodi yn ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2010-12. Pennodd 11 amcan ar ei gyfer ei hun a chefnogwyd y rhain gan nifer o nodau a chasgliad o Ddangosyddion Perfformiad.
- 30 Ar y cyfan, gwnaeth y Cyngor gynnydd da yn 2010-11 tuag at gyflawni ei Amcanion Gwella. Yn y mwyafrif o achosion mae gan y Cyngor gynllun gweithredu ar waith i wella perfformiad pan nad oedd cystal â'r disgwyl. Mae'r Cyngor wedi gwneud peth cynnydd amlwg i gyflawni ei amcanion sy'n ymwneud â chanlyniadau ar gyfer plant, ond mae gwaith i'w wneud o hyd i gyflawni'r ymrwymadau a wnaed yn llawn. Er enghraifft, mae wedi gwella sut y dyrennir gweithwyr cymdeithasol i blant sydd angen gwasanaethau gofal cymdeithasol ac wedi llwyddo i gyflawni'r holl asesiadau gofal cychwynnol oedd yn disgwyl cael eu gwneud. Mae hefyd wedi llwyddo i gwblhau sawl prosiect i wella ysgolion yn ystod y flwyddyn, fel adnewyddu Ysgol Gynradd

Bracla. Fodd bynnag, mae'r cynnydd o ran datblygu strategaeth ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, ac o ran datblygu ei gynlluniau ar gyfer gwella cynhwysiant wedi arafu. Mae'r Cyngor wedi perfformio'n wael yn 2010-11 wrth brosesu datganiadau ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig. Yn sgil hynny, adolygodd ei drefniadau gwaith i wella perfformiad a gofynnodd am gymorth gan gyngor cyfagos i helpu i ysgafnhau'r llwyth gwaith a oedd yn aros i gael ei wneud.

- 31 Nododd ein hasesiad blaenorol bod darparu gwasanaethau integredig i helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Atgyfnerthwyd hyn drwy'r Amcan Gwella i *'roi cymorth i oedolion agored i niwed allu byw'n annibynnol yn eu cymunedau, hybu dewis, grymuso, urddas a pharch'*. Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da yn erbyn yr Amcan Gwella hwn. Mae'r Cyngor wedi ailystyried a rhoi ffocws newydd i'w ddull o ailfodelu gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion, er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar ail-alluogi. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol er mwyn ceisio datblygu un gwasanaeth dros y 18 mis nesaf. Mae hyn wedi bod yn gymysgedd o waith logistaidd a datblygu model integredig ar gyfer gwasanaethau. Golyga hyn bod ei amserlen wreiddiol wedi mynd i'r gwellt, ond bydd cynlluniau yn fwy realistig a chyraeddadwy yn y tymor canolig. Mae wedi buddsoddi mewn cyfleusterau newydd eleni fel canolfannau dydd newydd, ac mae wedi rhagori ar ei dargedau ar gyfer darparu teleofal ar gyfer pobl agored i niwed fel ffordd o'u helpu i barhau'n annibynnol ac yn eu cartrefi eu hunain.

32 Nododd ein hasesiad hefyd fod darparu gwasanaethau integredig sy'n sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Nid ydym wedi adolygu cynnydd y Cyngor yn erbyn y flaenoriaeth hon, ond byddwn yn gwneud hynny yn 2012 ac yn adrodd ar hynny yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol nesaf.

Mae'r Cyngor wedi gwella ei gefnogaeth i bobl mewn angen

33 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn nodi i ba raddau y mae'r Cyngor yn gwella'r ffordd y mae'n cefnogi pobl mewn angen. Mae'n adlewyrchu safbwyntiau AGGCC mewn perthynas â gwasanaethau oedolion a phlant a chymorth corfforaethol; ac yn crynhoi ein hadolygiadau ein hunain o berfformiad y Cyngor yn erbyn amcanion gwella perthnasol.

Mae'r Cyngor yn perfformio'n dda yn erbyn rhai o'r dangosyddion gwasanaethau i oedolion allweddol ac mae'n rhaid iddo'n awr sicrhau bod ganddo'r gallu angenrheidiol i gyflawni ei gynlluniau ar gyfer gwella ymhellach

34 Mae'r Cyngor yn perfformio'n dda yn erbyn rhai o'r dangosyddion gwasanaethau oedolion allweddol, yn enwedig yr oedi wrth drosglwyddo gofal a gwella'r ffordd o amddiffyn oedolion. Mae'r Cyngor wedi nodi rhaglen ar gyfer newid ym maes gwasanaethau oedolion sydd â'r nod o wella'r gwasanaethau drwy well asesiadau a rheoli gofal yn well. Mae llawer o waith wedi'i wneud i bennu'r rhaglen ar gyfer newid ac mae'r Cyngor bellach yn wynebu'r her o wneud y newidiadau hynny tra'n cynnal a gwella perfformiad ar yr un pryd. Mae'r gallu i gefnogi'r rhaglen newid yn

bwnc llosg ac mae angen i'r Cyngor sicrhau bod ganddo'r adnoddau ychwanegol a allai fod yn ofynnol er mwyn cyflawni'r rhaglen waith yn brydlon.

Mae cynnydd wedi'i wneud ym maes gwasanaethau cymdeithasol plant

35 Mae tystiolaeth o gynnydd wrth wella gwasanaethau cymdeithasol plant. Mae'r Cyngor yn mabwysiadu arferion gwaith mwy effeithiol er mwyn sicrhau bod anghenion plant yn cael eu hasesu'n amserol ac yn gadarn. Cafwyd gwelliannau wrth ymdrin ag achosion amddiffyn plant. Yn ystod 2010-11, cynyddodd atgyfeiriadau i 1,029 o 942 yn y flwyddyn flaenorol, ond parhaodd penderfyniadau a wnaed o fewn 24 awr yn sefydlog ar 99 y cant. Mae'r Cyngor hefyd wedi cymryd mesurau i wella cyfraddau cadw staff.

36 Mae meysydd ar gyfer datblygu pellach yn cynnwys cynyddu sefydlogrwydd lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal; cynyddu ymhellach niferoedd y plant sy'n derbyn gofal sy'n cael eu dyrannu i weithwyr cymdeithasol cymwys; a gwella ansawdd a phrydlondeb asesiadau craidd.

37 Mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad cynhwysfawr o anghenion lleol ac wedi dechrau ymgynghori â grwpiau rhanddeiliaid ar y ffordd orau o weddnewid darpariaeth gwasanaethau plant ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

38 Gallai'r angen i'r Cyngor ostwng ei gyllideb gyffredinol gynyddu'r pwysau ar wasanaethau plant. Bydd angen rheoli'r pwysau hwn yn ofalus er mwyn sicrhau nad yw'n effeithio'n niweidiol ar gynnydd ym maes gwasanaethau plant. Mae'r amserlen ar gyfer cyflawni prosiectau pwysig fel diwygio gwasanaethau preswyl wedi ei

gwthio ymlaen, ond mae cynnydd da wedi'i wneud ers mis Ebrill 2011.

Mae'r cymorth corfforaethol ar gyfer gwneud gwelliannau i bobl mewn angen yn dda

- 39 Mae cymorth corfforaethol da ar gyfer yr agenda gwella ar y cyfan ac mae fframwaith cadarn ar waith i fonitro perfformiad. Cwblhaodd Swyddfa Archwilio Cymru asesiad rheoli risg o'r trefniadau ar gyfer llywio penderfyniadau rheoli'r Cyngor yn ystod 2010-11. Daeth yr asesiad hwn i'r casgliad bod y swyddogion sy'n cyfrannu at ailgynllunio gwasanaethau yn deall y risgiau o ran darparu gwasanaethau. Yn y dyfodol, wrth ymateb i ffactorau demograffig a ffactorau newid eraill, bydd angen i'r Cyngor ddatblygu ei ddealltwriaeth ymhellach o'r mathau o wasanaethau y mae'n eu darparu a'u costau a sut y byddant yn cael eu dyrannu i wahanol grwpiau cleientiaid er mwyn rheoli risg yn llawn.

Mae'r Cyngor yn gwella'r ffordd y mae'n ymdrin â digartrefedd

- 40 Mae'r Cyngor yn cydnabod ei fod yn perfformio'n wael o gymharu â sawl cyngor yng Nghymru o ran atal pobl rhag bod yn ddigartref. Yn 2010-11 roedd y Cyngor yn 19 allan o 22 cyngor yng Nghymru o ran y ganran o'r holl aelwydydd a allai fod yn ddigartref lle'r ataliwyd digartrefedd am o leiaf chwe mis. Ond cwblhaodd dair uned llety ychwanegol ar gyfer pobl ddigartref yn 2010-11, a chwblhawyd chwe uned arall cyn mis Mehefin 2011. Hefyd, adolygodd y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu er mwyn sicrhau ei fod yn fwy effeithlon. Yn sgil hynny, ataliwyd mwy o bobl rhag bod yn ddigartref yn 2010-11 nag yn y flwyddyn flaenorol.

Mae'r Cyngor yn darparu cefnogaeth dda i helpu rhai grwpiau i ddatblygu, ond bu dirywiad cymharol ym mherfformiad addysg yn 2010-11

- 41 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn nodi i ba raddau y mae'r Cyngor yn gwella'r ffordd y mae'n helpu pobl i ddatblygu. Mae'n defnyddio tystiolaeth o'n hadolygiadau ni o berfformiad y Cyngor yn erbyn amcanion gwella penodol a barn Estyn ar berfformiad ym maes addysg.

Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth wella lles corfforol ac emosiynol pobl â phroblemau iechyd

- 42 Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth gyflawni ei Amcan o ran gwella lles corfforol ac emosiynol drwy hyrwyddo ffyrdd egniol o fyw, cymryd rhan a dysgu. Mae nifer o enghreifftiau lle mae'r Cyngor wedi rhagori ar ei dargedau:
- Prosiect Gordewdra Cwm Garw – Prosiect Cwm Garw yn rhagori ar bob targed – 120 o gleifion wedi cymryd rhan yn y prosiect (targed o 50) gan golli cyfanswm o dros 150 stôn mewn pwysau.
 - Rhaglenni ymarfer yn y gymuned gyda tharged o 500 o gyfranogwyr rheolaidd, gyda 350 o oedolion a 497 o bobl ifanc yn cymryd rhan yn 2010-11.
 - Rhagori ar y targed ar gyfer nifer yr atgyfeiriadau gan feddygon teulu (1,456 yn erbyn targed o 1,200). Cyflawni'r ail berfformiad gorau yng Nghymru o ran targedau'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i wneud Ymarfer Corff.

43 Mae cyfleusterau hamdden y Cyngor yn cyfrannu'n bwysig at y gwaith o gyflawni ei amcanion iechyd a lles corfforaethol. Yn 2009, pennodd y Cyngor fodel arfaethedig o ddarparu gwasanaethau oedd â'r nod o gael mwy i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol dros gyfnod o ddeng mlynedd. Roedd y model yn cydnabod yr angen parhaus i fuddsoddi mewn cyfleusterau er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n ddiogel ac yn atyniadol i gwsmeriaid. Er mwyn sicrhau'r gwelliannau arfaethedig, mae'r Cyngor yn datblygu model partneriaeth a fydd yn gweld gwasanaethau o'i ganolfannau hamdden a'i byllau nofio yn cael eu darparu gan ddarparwr arall o fis Ebrill 2012.

44 Ar adeg ein hadolygiad, roedd y Cyngor yn gwneud cynnydd da yn datblygu model gweithredu newydd ar gyfer ei wasanaethau hamdden. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae'r Cyngor yn glir ynglŷn â'r rhesymau dros wneud newidiadau i'r gwasanaethau hamdden y mae'n eu darparu;
- mae penderfyniadau am yr angen am fodel gweithredu newydd a'r ffordd y bydd yn cael ei lywio wedi'u gwneud mewn ffordd wybodus ac ystyriol; ac
- mae'r prosiect yn cael ei reoli'n dda, mae ar y trywydd iawn ac mae'r fframwaith perfformiad newydd yn glir.

Ar y cyfan mae'r perfformiad addysg yn anghyson a bu dirywiad cymharol ym mherfformiad addysg yn 2010-11

45 Ar y cyfan, mae safonau addysg yn dirywio ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Wrth ystyried gwybodaeth gyd-destunol amrywiol, mae perfformiad disgyblion ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn uwch na chyfartaledd Cymru yng Nghyfnod Allweddol 1. Fodd bynnag, maent bellach yn is na'r cyfartaledd yng Nghyfnodau Allweddol 2, 3 a 4. Mae gormod o ysgolion yn y chwarteli isaf o gymharu ag ysgolion eraill yng Nghymru. Yng Nghyfnod Allweddol 2, dim ond 27 y cant o ysgolion cynradd sydd yn y 50 y cant uchaf. Yng Nghyfnod Allweddol 4, ar hyn o bryd dim ond traean o'r ysgolion uwchradd sydd yn y 50 y cant uchaf.

46 Am dair blynedd hyd 2009, roedd y perfformiad yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4, ar sail yr hawl i gael prydau ysgol am ddim, wedi bodloni neu ragori ar holl feincnodau Llywodraeth Cymru. Nid yw hyn yn wir bellach. Yn 2010, dim ond un o'r tri meincnod a fodlonwyd.

47 Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn gyson â chyfartaledd Cymru neu'n agos ato. Mae nifer y gwaharddiadau parhaol yn parhau'n uwch na chyfartaledd Cymru, ond mae gwaharddiadau tymor penodol yn parhau i ostwng. Fodd bynnag, mae nifer y diwrnodau a gollwyd i waharddiadau tymor penodol o chwe diwrnod neu fwy wedi cynyddu. Mae perfformiad Pen-y-bont ar Ogwr ar y dangosydd hwn wedi dirywio o'r cyntaf yng Nghymru i'r 20fed o blith y 22 Cyngor yng Nghymru.

Mae'r Cyngor wedi gwneud yr hyn roedd wedi bwriadu ei wneud i helpu i greu a chynnal yr ardal fel lle diogel, llewyrchus a dymunol

- 48 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn nodi i ba raddau y mae'r Cyngor yn gwella'r ffordd y mae'n helpu pobl i greu a chynnal yr ardal fel lle diogel, llewyrchus a dymunol. Mae'n defnyddio tystiolaeth o'n hadolygiadau ni o berfformiad y Cyngor yn erbyn amcanion gwella penodol.
- 49 Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd wrth fodloni ei amcan o greu cymunedau diogel a chynhwysol. Mewn cydweithrediad â'r heddlu a phartneriaid diogelwch cymunedol eraill, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu gorchmynion manau cyhoeddus ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Porthcawl a Phencoed ac wedi cynnal archwiliadau i ostwng yr achosion o werthu alcohol i bobl ifanc dan 18 oed. Mae'r cam hwn wedi cyfrannu at ostyngiad mewn troseddau sy'n gysylltiedig ag alcohol yng nghanol trefi. Mae'r Cyngor hefyd wedi hwyluso sawl digwyddiad yn y Fwrdeistref i wella cydlyniant cymunedol, ond nid yw'n hawdd mesur pa effaith y mae hyn wedi'i chael.
- 50 Mae gwaith y Cyngor i adfywio ardaloedd o'r Fwrdeistref yn helpu i gefnogi ei Amcan o hyrwyddo twf economaidd. Yn 2010-11, cwblhaodd y Cyngor waith adfywio ym Mhorthcawl (llwybr cerdded ar hyd y comin) ac yng nghanol trefi Pen-y-bont ar Ogwr a Maesteg. Mae gwaith gwella'r amgylchedd hefyd wedi'i wneud mewn rhai ardaloedd yn y cymoedd, fel Caerau. Mae'r Cyngor hefyd wedi llwyddo i helpu i wella sgiliau pobl leol drwy hyfforddiant a lleoliadau gwaith.
- 51 Mae'r Cyngor gyda'r gorau yng Nghymru o ran rheoli gwastraff. Mae'n anfon llai o wastraff yn gymesur i'w dirlenwi na'r mwyafrif o Gynghorau eraill. Mae'n ailgylchu neu'n aildefnyddio 32.3 y cant o'r gwastraff domestig y mae'n ei gasglu o gymharu â chyfartaledd Cymru o 26.3 y cant ac mae hyn yn golygu mai ef yw'r trydydd gorau o holl gynghorau Cymru o ran perfformiad. Roedd lefelau ailgylchu mewn safleoedd amwynder dinesig yn 2010-11 yn is na'r disgwyl, ond mae cynllun gweithredu ar waith ac mae gwelliannau eisoes yn cael eu gweld yn 2011-12.
- 52 Mae'r Cyngor wedi llwyddo i greu llwybrau beic, llwybrau arfordirol a hawliau tramwy newydd, neu wedi gwella rhai presennol, yn y Fwrdeistref yn 2010-11, ac mae wedi hyrwyddo eu defnydd drwy ddigwyddiadau fel gwyliau cerdded. Yn sgil hynny, mae'r Cyngor yn gwneud yn dda i gyflawni'r Amcan sy'n ymwneud â hyrwyddo manau gwyrdd y Fwrdeistref.

Mae'r Cyngor yn monitro perfformiad yn dda, ond mae angen iddo fod yn fwy cytbwys wrth werthuso ac adrodd ar berfformiad

- 53 Mae hunanasesu cadarn yn hollbwysig i allu'r Cyngor i:
- gydnabod y cynnydd y mae'n ei wneud;
 - cymryd camau unioni pan nad yw'r perfformiad yn cyrraedd lefelau a ragwelir; ac
 - adrodd ar ei berfformiad i ddinasyddion lleol mewn ffordd gytbwys.
- 54 Er mwyn asesu ei gynnydd, mae angen gwybodaeth dda am berfformiad ar y Cyngor a threfniadau monitro cadarn. Mae gan y Cyngor wybodaeth dda am berfformiad ar sail ystod eang o ddangosyddion perfformiad cywir sydd, ynghyd ag enghreifftiau ansoddol lle nad oes dangosyddion perfformiad ar gael neu nad ydynt yn berthnasol, yn rhoi sylw digonol i alluogi'r Cyngor i wneud penderfyniadau cadarn am ansawdd a pherfformiad. Adroddiad Blynyddol y Cyngor yw'r ffordd bwysicaf o roi gwybod i ddinasyddion lleol am berfformiad. Mae'r dangosyddion perfformiad a nodir yn yr adroddiad hwnnw yn rhoi darlun cyfyngedig o'r cynnydd a wnaed gan nad yw'r Cyngor bob tro yn dangos yn glir yr hyn y mae'n ei wneud i wella pan fo pethau'n waeth na'r flwyddyn flaenorol neu'n is na'r targed.
- 55 Adroddir yn chwarterol ar wybodaeth am berfformiad, gan gynnwys sefyllfa ariannol a pherfformiad y Cyngor ar absenoldeb salwch, drwy broses Adolygu Busnes Chwarterol y Cyngor. Mae'r drefn fonitro hon yn gweithio'n dda gyda thargedau, cynnydd ac unrhyw gamau unioni yn cael eu herio a'u monitro.
- 56 Mae data dangosyddion perfformiad yn cael ei gymharu â chyfartaledd Cymru yn Adroddiad Blynyddol y Cyngor. Dengys sylwadau ar rai dangosyddion (ond nid pob un) safle'r Cyngor o gymharu ag awdurdodau eraill Cymru. Defnyddiodd y Cyngor yr un sail ar gyfer ei Adroddiad Blynyddol yn 2010-11 ag yn y flwyddyn flaenorol, felly ni ystyriodd yr angen am wybodaeth gymharol ehangach neu fwy amrywiol na'r wybodaeth a oedd ar gael am y cynghorau eraill yng Nghymru. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen i'w Adroddiad Blynyddol wella y flwyddyn nesaf ac mae eisoes yn cynllunio sut i wneud hynny. Byddwn yn monitro sut mae'r adroddiad diwygiedig yn gwneud gwell defnydd o ddata cymharol.
- 57 Mae Adroddiad Blynyddol y Cyngor yn gynhwysfawr ac yn rhoi sylw i'r holl weithgareddau pwysig y mae'r Cyngor wedi neu heb eu cyflawni yn ystod y flwyddyn. Lle mae'r perfformiad yn waeth na'r disgwyl, mae'r adroddiad yn tueddu i roi esgusodion am y perfformiad yn hytrach na rhoi darlun clir o'r hyn y mae'n ei wneud i wella pethau. Nid yw'r ymarfer hwn yn rhoi digon o bwyslais ar sut mae'r Cyngor yn ymateb gan ei fod yn methu â dangos yr enghreifftiau di-rif o'r camau unioni sydd wedi'u cymryd i fynd i'r afael â thangyflawni.
- 58 Nid yw adroddiad y Cyngor yn cynnwys asesiad cyffredinol o gynnydd y Cyngor ac, ynghyd â'i ddiffyg cydbwysedd a'r defnydd anghyson o gymariaethau, byddai llawer o ddinasyddion yn cael trafferth dod i gasgliad cywir am gynnydd y Cyngor yn 2010-11 o ddarllen yr adroddiad hwn. Mae diffyg arfarnu beirniadol go iawn yn yr adroddiad o sut mae'r Cyngor yn credu y mae wedi perfformio'n gyffredinol a'r hyn y mae'n ei wneud yn wahanol yn sgil hynny.

59 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi pennu bod yr awdurdod wedi cyflawni ei holl ddyletswyddau o dan Fesur Llywodraeth Leol 2009. Fodd bynnag, dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, yn enwedig wrth:

- egluro'n well a yw wedi cyflawni ei amcanion gwella;
- cymharu ei berfformiad yn well ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, a phan fo hynny'n berthnasol, â chyrrff cyhoeddus eraill;
- cyflwyno'r wybodaeth yn ei Adroddiad Blynyddol mewn ffordd decach a mwy cytbwys; a
- mynd ati'n frwd i gael adborth a sylwadau gan ddinasyddion a chymunedau.

Atodiadau



Atodiad 1

Statws yr adroddiad hwn

Dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad Gwella blynyddol, a chyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys cynghorau, parciau cenedlaethol a'r awdurdodau tân ac achub.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi paratoi'r adroddiad hwn fel rhan o'i ddyletswyddau dan adran 24 y Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni'i ddyletswyddau dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n cadarnhau ei fod wedi cynnal Asesiad Gwella dan adran 18 ac sy'n dweud a ydyw, yn sgil ei archwiliad o'r cynllun gwella dan adran 17, yn credu bod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliannau dan adran 15.

Mae dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau gwella i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Mae cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yn enghreifftiau o awdurdodau gwella.

Yr Asesiad Gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni'i ddyletswyddau. Mae'r Asesiad Gwella wedi'i lywio gan asesiad sy'n edrych i'r dyfodol i weld pa mor debygol yw'r awdurdod o gydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw'r awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau arfaethedig er mwyn mynegi barn ar hanes yr awdurdod o sicrhau gwelliant. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn crynhoi casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ar hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad.

Dan rai amgylchiadau hefyd, gall yr Archwilydd Cyffredinol gynnal arolygiadau arbennig (dan adran 21) ac mewn perthynas â hyn bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol, ac efallai yn cyhoeddi'r adroddiad hwnnw (dan adran 22). Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r adroddiadau archwilio ac asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig hwn (dan adran 24). Bydd hwn hefyd yn cynnwys crynodeb o unrhyw adroddiadau ar arolygiadau arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu'r gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol yr holl reoleiddwyr perthnasol mewn awdurdod gwella. Hefyd, gall yr Archwilydd Cyffredinol ystyried y wybodaeth a rennir gan y rheoleiddwyr perthnasol (dan adran 33) yn ei asesiadau.

Atodiad 2

Gwybodaeth ddefnyddiol am Ben-y-bont ar Ogwr a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Mae'r Cyngor yn gwario tua £317 miliwn y flwyddyn (2010-11). Mae hyn yn cyfateb i tua £2,400 y trigolyn, Yn yr un flwyddyn, mae'r Cyngor hefyd wedi gwario £30 miliwn ar eitemau cyfalaf.

£1,288.04 y flwyddyn yw'r dreth gyngor band D gyfartalog ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn 2011-12, sy'n gynydd o 3.83 y cant. Mae wyth deg y cant o dai Pen-y-bont ar Ogwr yn perthyn i fandiau treth gyngor A i D.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru - StatsCymru

Mae'r Cyngor yn cynnwys 54 aelod etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac sy'n gwneud penderfyniadau am flaenoriaethau a'r defnydd o adnoddau. Mae cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 27 Llafur
- 10 Annibynnol
- 6 Ceidwadwyr
- 6 Democratiaid Rhyddfrydol
- 2 Annibynnol
- 2 Democratiaid Annibynnol
- 1 Plaid Cymru

Arweinydd y Cyngor yw'r Cynghorydd Mel Nott; Aelodau eraill y Cabinet a'u portffolios yw:

- Cyng. David Sage – Dirprwy Arweinydd
- Cyng. Alana Davies – Plant a Phobl Ifanc
- Cyng. Huw David – Adnoddau
- Cyng. Lyn Morgan – Lles
- Cyng. Phil White – Cymunedau

Ffynhonnell: Gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Siroi Pen-y-bont ar Ogwr yw Dr Jo Farrar ac mae ei thîm rheoli yn cynnwys:

- Prif Weithredwr Cynorthwyol, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol: Andrew Jolly
- Prif Weithredwr Cynorthwyol, Perfformiad: David MacGregor
- Cyfarwyddwr Corfforaethol, Lles: Abigail Harris
- Cyfarwyddwr Corfforaethol, Plant: Hilary Anthony
- Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cymunedau: Louise Fradd

Ffynhonnell: Gwefan Cyngor Bwrdeistref Siroi Pen-y-bont ar Ogwr

Gwybodaeth arall

Aelodau Cynulliad yr ardal yw:

- Carwyn Jones, Pen-y-bont ar Ogwr, Llafur
- Janice Gregory, Ogwr, Llafur

Aelodau Seneddol yr ardal yw:

- Huw Irranca-Davies, Ogwr, Llafur
- Madeleine Moon, Pen-y-bont ar Ogwr, Llafur

Am ragor o wybodaeth gweler gwefan y Cyngor ei hun, www.bridgend.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB.

Atodiad 3

Cyfrifon a defnydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o adnoddau

Cyhoeddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yr adroddiad archwilydd canlynol (ar 30 Medi 2011).

Adroddiad yr archwilydd annibynnol i Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifon a nodiadau cysylltiedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth-gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian, a nodiadau cysylltiedig.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i ddefnyddio yn eu paratodau yn gyfraith gymwys ac mae'r Cod Ymarfer ar Gyfrifon Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010-11 yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Cyfrifoldebau priodol y swyddog ariannol cyfrifol a'r archwilydd annibynnol

Fel yr eglurwyd yn fanylach yn y Datganiad Cyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon ar **dudalen 15**, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon, sy'n rhoi safbwynt cywir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifon a nodiadau cysylltiedig yn unol â chyfraith gymwys a Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau o gyfrifon

Mae archwiliad yn golygu cael tystiolaeth ynglŷn â'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau o gyfrifon a nodiadau cysylltiedig sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau o gyfrifon a'r nodiadau cysylltiedig yn cynnwys unrhyw gamddatganiad materol, drwy dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesiad o: a yw'r polisiâu cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; pa mor rhesymol yw'r amcangyfrifon o'r cyfrifon pwysig a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau o gyfrifon a'r nodiadau cysylltiedig.

Hefyd, rwy'n darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn y Rhagair Esboniadol i nodi anghysondebau materol â'r datganiadau o gyfrifon archwiliedig a'r nodiadau cysylltiedig. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau materol neu anghysondebau amlwg, byddaf yn ystyried y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad.

Barn ar ddatganiadau o gyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Yn fy marn i, mae'r datganiadau o gyfrifon a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi safbwynt cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar 31 Mawrth 2011 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben; ac
- maent wedi'u paratoi'n drylwyr yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010-11.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y Rhagair Esboniadol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau o gyfrifon a'r nodiadau cysylltiedig ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau o gyfrifon a'r nodiadau cysylltiedig.

Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r Datganiad Llywodraethu yr wyf yn adrodd arno i chi os nad yw, yn fy marn i, yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â '*Delivering Good Governance in Local Government: a Framework*' a gyhoeddwyd gan CIPFA/SOLACE ym mis Mehefin 2007, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni yn sgil fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau archwiliad

Rwy'n ardystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Anthony Barrett
Archwilydd Penodedig
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

30 Medi 2011

Atodiad 4

Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Amcanion gwella Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynllunio i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu. Bob blwyddyn, mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei amcanion gwella yn ei Gynllun Corfforaethol 2010-2013 sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.bridgend.gov.uk.

Amcanion Gwella ar gyfer 2010-11	Amcanion Gwella Diwygiedig ar gyfer 2011-2013
<ul style="list-style-type: none">• creu cymunedau diogel a chynhwysol;• datblygu datrysiadau tai cynaliadwy ar gyfer pobl ddigartref neu'r rhai sydd angen tai fforddiadwy, a gwella amodau tai'r sector preifat;• rhoi cymorth i oedolion agored i niwed allu byw'n annibynnol yn eu cymunedau, gan hybu dewis, grymuso, urddas a pharch;• darparu gwasanaethau sy'n diwallu gwahanol anghenion plant a phobl ifanc sy'n byw yn y Fwrdeistref;• datblygu cymunedau dysgu sy'n helpu plant a phobl ifanc i gyflawni gwell canlyniadau;• sicrhau mwy o gynhwysiant addysgol, fel bod yr holl bobl ifanc, gan gynnwys rhai difreintiedig ac agored i niwed a'r rhai â chanddynt anghenion dysgu ychwanegol, yn elwa o ymyrraeth gynharach a chymorth lleol mwy effeithiol;	<ul style="list-style-type: none">• creu cymunedau diogel a chynhwysol sy'n cael eu cefnogi gan seilwaith ffisegol effeithiol;• datblygu a chefnogi datrysiadau tai cynaliadwy a fforddiadwy ar gyfer pobl ddigartref neu'r rhai sydd mewn angen;• gweithredu gwell gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig i gefnogi annibyniaeth, dewis, grymuso, urddas a pharch;• cydweithio â phartneriaid i fynd i'r afael â thlodi a rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant;• helpu pob plentyn a pherson ifanc i gyflawni safonau caffael uwch drwy fanteisio ar gyfleoedd dysgu o ansawdd uchel;• gwella lles corfforol ac emosiynol trwy hybu ffyrdd egni'ol o fyw, cyfranogiad a dysgu;• rhoi cymorth i'n cymunedau difreintiedig trwy hybu twf economaidd, adnewyddu ffisegol a chynaliadwyedd;

Amcanion Gwella ar gyfer 2010-11	Amcanion Gwella Diwygiedig ar gyfer 2011-2013
<ul style="list-style-type: none"> • gwella lles corfforol ac emosiynol trwy hybu ffyrdd egnïol o fyw, cyfranogiad a dysgu; • rhoi cymorth i'n cymunedau difreintiedig trwy hybu twf economaidd a chynaliadwyedd; • parhau i hyrwyddo Pen-y-bont ar Ogwr a'i manau gwyrdd fel lle gwych i fyw ynddo ac i'w fwynhau; • gwella'r ffordd rydym yn gweithio i sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o'n hasedau ariannol, technolegol, ffisegol a dynol; a • sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau moesol a statudol o ran deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol. 	<ul style="list-style-type: none"> • rheoli a hyrwyddo'r amgylchedd naturiol a hanesyddol; a • gwella'r ffordd rydym yn gweithio i sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o'n hasedau ariannol, technolegol, ffisegol a dynol.

Hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o'i berfformiad

Mae hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad, Adroddiad Blynyddol 2010-2011 ar gael ar wefan y Cyngor yn: <http://www.bridgend.gov.uk/web/groups/public/documents/services/015180.hcsp>

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk

Gwefan: www.wao.gov.uk